**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Alan Ferris | Rheolwr Diogelwch Ffyrdd |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Cath Swain | Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd M Thomas – Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: M A Langstone

---

## 7 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr C Anderson a P M Matthews gysylltiad personol â Chofnod 9 "Gosod Arosfannau Bysus".

## 8 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

## 9 Gosod Arosfannau Bysus

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd yr adroddiad.

Rhoddodd Rheolwr yr Uned Cludiant Integredig drosolwg cynhwysfawr o berchnogaeth, math, lleoliad a gwaith cynnal a chadw arosfannau a chysodfannau bysus. Nodwyd bod Swyddogion yn defnyddio canllawiau yn hytrach na bod polisi ffurfiol ar waith.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol iddynt. Anogwyd yr Aelodau i anfon neges ar wahân at y Tîm Cludiant ynghylch unrhyw bryderon diogelwch neu lendid posib.

Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio polisi i'w ddefnyddio yn Ninas a Sir Abertawe.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddog am yr adroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.
2) Bydd Arweinydd y Tîm Cludiant i Deithwyr yn drafftio polisi (yn seiliedig ar y canllawiau gweithredol cyfredol) ac yn ymchwilio i bolisïau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill.

## 10 Tawelu Traffig

Rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Ffyrdd drosolwg o’r cefndir a'r materion i'w hystyried sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwaith tawelu traffig.

Nododd yr Aelodau'r ystyriaethau tawelu traffig.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol iddynt.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd Aelod y Cabinet y canlynol:

1) Mae parthau 20 mya yn rhoi budd cymedrol i faterion amgylcheddol.
2) Mae angen monitro/gorfodi parthau 20 mya hefyd i sicrhau cydymffurfiaeth.
3) Mae cyflwyno mesurau tawelu traffig yn cael effaith negyddol ar isadeiledd priffyrdd ac ar hyn o bryd nid oes cyllid ychwanegol ar gael i wrthsefyll hyn.
4) Ymgynghorir â'r holl wasanaethau brys cyn cyflwyno mesurau tawelu traffig ac ystyrir eu sylwadau.
5) Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn hanfodol wrth bennu priodoldeb y gwahanol fathau o fesurau tawelu traffig.
6) Nid yw tawelu traffig yn cael effaith andwyol ar argaeledd cilfachau parcio i breswylwyr.
7) Fodd bynnag, byddai swyddogion yn gallu cynorthwyo Gweithgor, ond nid oes gan y Tîm Rheoli Traffig adnoddau ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion am eu hadroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

## 11 Cynllun Gwaith 2021/2022

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd gynllun gwaith 2021-2022. Dywedodd, yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fod amserlenni a manylion swyddogion bellach wedi'u cynnwys yn y cynllun.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y byddai'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn rhoi diweddariad interim i'r Pwyllgor ynghylch arolwg ar-lein Rheoli Mannau Agored (Bioamrywiaeth) cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Medi 2021.
2) Caiff y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ei chynnwys yn y cynllun gwaith.
3) Gan gynnwys pwyntiau 1) a 2) uchod, cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer 2021-2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.23 pm

**Cadeirydd**